

# Mesuryddion clyfar ac asiantau gosod



## Am fesuryddion clyfar

Mesuryddion clyfar yw'r genhedlaeth nesaf o fesuryddion nwy a thrydan. Maen nhw'n cael eu gosod mewn cartrefi ar draws Prydain Fawr heb unrhyw gost ychwanegol, i ddisodli mesuryddion traddodiadol (gan gynnwys mesuryddion allwedd rhagdalau). Mae mesuryddion clyfar yn mesur faint o nwy a thrydan rydych chi'n eu defnyddio yn ogystal â faint mae'n ei gostio i chi, ac yn dangos hynny ar sgrîn ynni cartref gyfleus.

## Pwy sy'n gyfrifol am osod mesurydd clyfar?

Gall fod dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am osod mesurydd clyfar. Mae Ofgem, y rheoleiddiwr ynni, yn datgan bod gan y sawl sy'n talu'r bil yr hawl i osod mesurydd clyfar ac na ddylai'r landlord atal y gosodiad yn afresymol.

## Manteision mesuryddion clyfar

Mae llawer o fanteision i asiantau gosod a thenantiaid i gael gosodiad mesurydd clyfar. Gall mesurydd clyfar helpu arbed arian i'r sawl sy'n talu'r bil trwy ddangos faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio bron mewn amser real, a all annog gostwng y defnydd o ynni ac yn ei dro cyfrannu at ostwng ein hól troed carbon.

## Y buddion ar gyfer landlordiaid yw:

- os caiff darlenniadau mesurydd eu hanfon at y cyflenwr bob dydd neu bob hanner awr, ni fyddai angen cymryd darlenniad mesurydd wrth wneud y rhestr eiddo
- mae darlenniadau awtomatig a anfonir at y cyflenwr yn golygu y gellir cyfrifo'r bil terfynol yn gywir yn ystod ac ar ddiwedd y denantiaeth gan atal anghydfod rhwng tenantiaid a landlordiaid
- mae mesuryddion clyfar yn gweithio yn y modd rhagdal a'r modd credyd. Mae hyn yn golygu y gall y tenant newid eu ffordd o dalu dros yr awyr heb orfod cael mesurydd newydd

Trwy gael gosodiad mesurydd clyfar, rydych chi'n helpu i wneud ein system ynni'n glyfrach a all fod yn dda i'r amgylchedd. Bydd mesuryddion clyfar yn ein helpu i gwtogi ar ynni a wastraffir trwy ragamcanu galw yn fwy effeithiol. Yn wir, mae'r llywodraeth yn darogan y gallai'r ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar arbed gwerth £650m o ynni a wastraffir o fewn y system yn y pen draw.<sup>1</sup> Bydd y system yn gallu galw ar ffynonellau ynni mwy lleol ac adnewyddadwy hefyd.



<sup>1</sup>Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, (2019) **Cyflwyno mesuryddion deallus: dadansoddiad cost a budd**